Cronfa Treftadaeth Heritage Fund | Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru In Partnership with Welsh Government

TIR NATUR
Adfer Natur - Gyda'n Gilydd
Bringing Nature Back - Together

# Disgrifiad Swydd Rheolwr Cyfathrebu

| | |
|---|---|
| Yn adrodd i: | Arweinydd Cyfathrebu yr Ymddiriedolwyr |
| Cyflog: | £36,000 y flwyddyn, cyfwerth ag amser llawn |
| Oriau: | 0.7 Cyfwerth ag amser llawn - 26 awr yr wythnos |
| Contract: | Contract tymor penodol 18 mis |
| Lleoliad: | Gartref yn bennaf, ar y safle yn ôl yr angen |

Wedi'i gofrestru fel elusen yn 2022, nod Tir Natur yw gwella a gwarchod yr amgylchedd ffisegol a naturiol yng Nghymru er budd y cyhoedd, a hynny drwy adfer y prosesau naturiol sy'n arwain at ecosystemau gwydn drwy ailwylltio. O wneud hynny byddwn yn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a helaethrwydd rhywogaethau yng Nghymru. Mae Tir Natur yn berchen ar 1200 erw o dir yng nghanolbarth Cymru, sef prosiect Cwm Doethïe.

Mae gwaith Tir Natur hefyd yn cwmpasu:

- hybu addysg ac ymwneud y cyhoedd ag egwyddorion adfer ecosystemau ac ailwylltio, drwy hyrwyddo egwyddorion ailwylltio;
- hybu lles cymunedau yng Nghymru, drwy hwyluso cysylltiad pobl â thirweddau naturiol a gwella mynediad i'r tirweddau hyn.

Mae rôl y Rheolwr Cyfathrebu yn hanfodol i Tir Natur, gan y bydd yn gyfrifol am reoli'r holl sianeli cyfathrebu allanol, gan sicrhau bod holl gyfathrebiadau'r Elusen yn gyson â'n negeseuon craidd ac yn ennyn diddordeb ac egni ar gyfer ein cenhadaeth. Yn Tir Natur rydym wedi ymroi i'n cymuned ehangach ac mae ein holl gyfathrebiadau'n cael eu cyflwyno yn unol â'n polisi iaith Gymraeg. Mae sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn ddymunol ar gyfer y rôl hon, a bydd angen i ddeiliad y rôl ddeall cyd-destun ailwylltio yng Nghymru.

Ariennir y prosiect yma gan y Rhaglen Rhwydweithiau Natur. Mae'n cael ei ddarparu gan y Gronfa Treftadaeth, ar ran Llywodraeth Cymru.

| **Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau** |
|---|
| Cefnogi cyflawniad gwaith cyfathrebu allweddol ar gyfer Tir Natur:<br>● Codi proffil TN gan ddefnyddio cyfathrebu difyr ac ystyrlon<br>● Ymwneud â rhanddeiliaid a phartneriaid posibl a fydd yn cefnogi ein hamcanion craidd drwy gyfathrebiadau amrywiol, difyr ac ystyrlon<br>● Ymgymryd â gweithgareddau cyfathrebu yn unol â'r Strategaeth Gyfathrebu a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr |

# Disgrifiad Swydd Rheolwr Cyfathrebu

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau**

- Sicrhau y caiff y Strategaeth Gyfathrebu ei hadolygu'n rheolaidd a'i diwygio os yw'n briodol i sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion cyfathrebu Tir Natur ac yn ymatebol i ddigwyddiadau allanol
- Gweithio'n agos gydag Arweinydd Cyfathrebu'r Ymddiriedolwyr i addasu a gwella'r Strategaeth Gyfathrebu fel sy'n briodol, gan wneud argymhellion i'r Bwrdd
- Cydlynu â'r holl wirfoddolwyr, ymgynghorwyr a staff i sicrhau bod cyfathrebiadau'n cyd-fynd â'r Strategaeth Gyfathrebu a gymeradwywyd
- Sicrhau bod yr holl gyfathrebu'n cael ei gyflawni yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg ● Cefnogi gweithgareddau codi arian, gan weithio'n agos gyda'r Rheolwr Codi Arian i ddatblygu a chyflwyno negeseuon sy'n cymell
- Nodi gwendidau a bylchau yn y cyfathrebu (e.e. cyfathrebu mewn argyfwng) a rhoi gwybod i Arweinydd Cyfathrebu'r Ymddiriedolwyr
- Hyrwyddo digwyddiadau a gweithgareddau, adrodd straeon i gynulleidfa ddigidol ehangach gan gydlynu â'r Swyddog Cymunedau a Gwirfoddolwyr
- Cofnodi ac adrodd straeon pobl leol a thir Tir Natur – am fywyd, gwaith, treftadaeth a bywyd gwyllt
- Cynhyrchu cyhoeddusrwydd ar gyfer ein diwrnodau agored i'r cyhoedd, ein gweithdai gyda phartneriaid, penwythnosau cofnodi ecolegol a phartïon gwaith i wirfoddolwyr; adrodd ar y digwyddiadau hyn
- Cyflwyno straeon byrion sy'n crisialu ein gweithgareddau i brosiect cronfa Rhwydweithiau Natur
- Cynrychioli Tir Natur mewn digwyddiadau yn ôl yr angen

Rheoli cyfryngau cymdeithasol ac offer cyfathrebu Tir Natur:

- Goruchwylio gwaith dylunio gwe, cynnwys gwe a deunyddiau i'w lawrlwytho, gan gynnwys gwiriadau hygyrchedd
- Instagram, Facebook ac unrhyw lwyfannau priodol eraill ar y cyfryngau cymdeithasol
- Monitro a chynnig sylwadau yn ôl yr angen

Rheoli ymgysylltiad drwy gyfryngau nad ydynt yn rhai digidol

- Llunio a chyflwyno cylchlythyr misol a phostiadau blog rheolaidd
- Ysgrifennu straeon i'r wasg a'r cyfryngau i ddenu cynulleidfa ehangach i'n gwaith

Adrodd:

- Olrhain y cyfryngau a llunio darlun o ystadegau i fesur effaith yn seiliedig ar allbynnau
- Darparu tystiolaeth i ddogfennu ymdrechion TN at newid y sgwrs o amgylch ailwylltio yng Nghymru
- Darparu adroddiadau misol manwl i'r Pwyllgor Rheoli ar gyrhaeddiad ac ymgysylltiad ar draws llwyfannau

Arall:

- Adolygu'r gofrestr risg mewn perthynas â chyfathrebu, gan gynghori'r Bwrdd lle bo angen

- Lle bo problemau'n codi o ran cyfathrebu, rhoi gwybod am y rhain i Arweinydd Cyfathrebu'r Ymddiriedolwyr

# Disgrifiad Swydd Rheolwr Cyfathrebu

**Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau**

- Hwyluso'r gwaith o recriwtio Ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr a staff
- Gweithio i gefnogi siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg ar draws Tir Natur
- Gweithio o fewn polisïau a gweithdrefnau Tir Natur ac mewn ffordd sy'n bodloni gofynion cyfreithiol a statudol ac arferion gorau
- Mynd ati'n weithredol i geisio a chynnig hyfforddiant a chyfleoedd datblygiad personol
- Gweithio i hyrwyddo egwyddorion ac arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Gweithio mewn ffordd hyblyg, gan gynnwys gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl yr angen yn rhesymol